

# Gweithdrefnau Gêm Cash Grid

## Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer CASH GRID (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn gymwys. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn [national-lottery.co.uk](http://national-lottery.co.uk).

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).



## Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: "CASH GRID"

Rhif y Gêm: "GAME 1249"

Pris Manwerthu: **£1 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 4.50 o enill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 14,446,800 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

## Sut i chwarae ac enill

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys grid gyda naw motif . Mae wyth saeth uwchben ac ar ochr dde y grid ac mae pob un yn cynnwys swm gwobr ariannol gwahanol (wedi'u labelu fel "Saeth").

I chwarae'r Gêm, rhaid i chi grafu'r haen gyfan oddi ar y grid i ddatgelu naw Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn enill Gwobr os byddwch yn datgelu tri Symbol Chwarae unfath gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol sy'n creu llinell lorweddol, fertigol neu groesinol yn y grid. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y wobwr ariannol a ddangosir yn y saeth gyfatebol neu'r llinell lorweddol, fertigol neu groesinol honno.

## Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae

Symbolau Chwarae		
Penawdau Chwarae	<b>-CASH</b>	<b>-COIN</b>

Bydd naw Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen y grid yn yr Ardal Chwarae. Dim ond y Symbolau Chwarae a'r Penawdau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

## Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

Y Gwobrau	Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm	Tebygolrwydd Bras (1 Mewn: ) Ar Ddechrau'r Gêm	Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu
£1	1,364,442	11	+/- 5.00%
£2	1,203,854	12	+/- 5.00%
£5	449,446	33	+/- 5.00%
£10	112,376	129	+/- 5.00%
£20	80,260	180	+/- 5.00%
£40	2,002	7,217	+/- 5.00%
£100	162	89,178	+/- 7.13%
£10,000	5	2,889,360	+/- 36.55%



GP6M1249

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT, Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.



**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Gall y Gêm barhau i gael ei gwerthu ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei hawlio. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i [national-lottery.co.uk](http://national-lottery.co.uk) neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 61.57% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £8,894,620 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Camelot heb yn wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Camelot argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf.



**GP GM1249**

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT,  
Linell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel  
uchod am alwadau.



**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**